KEITH LANE

Chewch chi ddim mynd

(dewrder / gweld cyfle)

Edrychodd Keith Lane ar y cloc. Pump o'r gloch! Roedd wedi deffro bob awr er pan aeth i'w wely am hanner nos. Yr unig beth oedd ar ei feddwl oedd ei wraig Maggie. Wythnos ynghynt roedd wedi taflu ei hun dros y dibyn yn Beachy Head, Dwyrain Sussex. Ond yr hyn oedd yn codi arswyd ar Keith oedd bod ei wraig wedi dweud wrtho ei bod wedi cael breuddwyd ryfedd. "Wyddost ti," meddai, "yn y freuddwyd dyna lle roedden ni'n dau yn rhedeg law yn llaw dros y dibyn i'r môr." "Beth ddigwyddodd wedyn?" gofynnodd Keith. "Wn i ddim," meddai hithau, "mi wnes i ddeffro yn chwys i gyd!" Wythnos union ar ôl y freuddwyd roedd Maggie wedi cyflawni hunanladdiad.

"Does dim pwrpas poeni fel hyn," meddai'r glanhawr ffenestri. "Mae'n well i mi godi a mynd i wneud brecwast a dechrau arni i lanhau'r ffenestri." Ond, wrth iddo fwyta'i frecwast, daeth rhyw deimlad rhyfedd drosto. Roedd yn rhaid iddo fynd yn syth i Beachy Head. Teimlai'n rhyfedd fel petai mewn perlewyg. Parciodd y car wrth ymyl y dafarn fel roedd yr haul yn codi. Daeth allan o'r car. Gwelai wraig yn ei thridegau, gyda gwallt hir a chot ddu yn cerdded yn dalog ar hyd y llwybr oedd yn arwain ar hyd y glannau. Stopiodd ac edrych ar Keith, a dechreuodd gerdded yn gyflymach.

Aeth Keith ar ei hôl. Ond yn fuan roedd hi wedi mynd o'i olwg. Cerddodd Keith yn gyflymach. Gwelodd Keith y wraig yn eistedd ar y sedd oedd yn edrych dros y môr. Roedd hi'n sgwennu ar ddarn o bapur. Wrth i Keith nesáu ati, gwelai ei bod wedi bod yn crio. Meddai wrthi, "Dwi'n gobeithio nad ydych chi'n meddwl gwneud dim byd gwirion. Ga i eistedd wrth eich ymyl am funud?" Cytunodd y wraig.

Dechreuodd Keith ddweud yr hanes am ei wraig fel y bu iddi neidio dros ochr y dibyn. "Felly, rydych chi'n gwybod yn well na neb sut ydw i'n teimlo," meddai hi. Cododd ar ei thraed a rhedeg tuag at ymyl y dibyn. Cododd Keith ac aeth ar ei hol. Ychydig o lathenni a byddai dros yr ymyl. Gafaelodd ynddi a'i llusgo oddi wrth y dibyn mawr. Roedd hi'n gweiddi ac yn sgrechian ac yn ceisio brathu ei freichiau. Gwaeddai ar dop ei llais, "Does gynnoch chi ddim hawl i wneud hyn i mi." Crafangai yn nes ac yn nes at ymyl y dibyn ac yna'n sydyn dyma hi'n stopio'n stond. Edrychodd ym myw

llygaid Keith ac meddai, “Beth am i ni fynd drosodd, law yn llaw fel y disgrifiodd Maggie yn ei breuddwyd?” “Dydych chi ddim yn mynd i unman,” meddai Keith wrthi’n bendant. Dechreuodd ymdrechu unwaith yn rhagor. Symudai hithau’n nes ac yn nes at ymyl y dibyn a Keith yn gafael yn dynn ynddi.

Ar y llwybr gwelodd Keith ddau blismon. Roedden nhw’n chwilio am wraig. Gwaeddodd Keith nerth ei lais. Ond hyd yn oed gyda help y ddau blismon roedd hi’n anodd ei llusgo oddi wrth ymyl y dibyn. Meddai Keith wrthi, “Mae’r cyfan drosodd yn awr, gwell i chi fynd efo’r plismyn ac mi ddo i efo chi.” Ar eu ffordd yn ôl i orsaf yr heddlu esboniodd Keith pam na allai adael iddi neidio dros y clogwyn.

Yn ystod yr wythnosau wedyn bu Keith yn ymweld â’r wraig yn uned seiciatryddol ysbyty Eastbourne. Bellach mae Keith yn ymweld â Beachy Head bob dydd rhwng 3 o’r gloch a 6 o’r gloch y pnawn. Yn ystod cyfnod o bedwar mis rhwystrodd saith o bobl rhag cyflawni hunanladdiad ac un ohonyn nhw’n fachgen 17 oed. Meddai Keith, “Mi gollais i fy ngwraig a dydw i ddim yn gwybod a oedd yna bwrpas i’w marwolaeth ai peidio ond mae’n rhaid i mi bellach wneud fy ngorau i helpu eraill. Dydw i ddim eisiau i deuluoedd eraill fynd trwy’r uffern rydw i wedi gorfod mynd drwyddo.”

Adnod: “Byddaf yn diolch i’m Duw bob tro y byddaf yn cofio amdanoch, a phob amser ym mhob un o’m gweddïau dros bob un ohonoch, yr wyf yn gweddïo gyda llawenydd.” Philipiaid 1:3–4

Gweddi: Gwna fi, O Dduw, yn berson dewr, yn berson sy’n barod i wynebu peryglon er mwyn eraill. Amen.

Trafod:

- Beth ydi’ch barn chi am freuddwydion? Ydi breuddwydion yn dod yn wir?
- Beth fuasech chi wedi ei wneud petaech wedi gweld y ferch ifanc yn cerdded tuag at y dibyn?